


Aseiad Clinigol Cyhyrsgerberbydol mewn Oedolion



Arthritis UK

Mae dros 10 miliwn o oedolion, pobl ifanc a phlant yn y DU yn byw gydag arthritis. Dyna un o bob chwech o bobl sy'n byw gyda'r poen, y blinder, yr anabledd, y straen meddyliol ac ariannol y gall ei achosi. Gall yr effaith fod yn enfawr, gan effeithio ar y gallu i weithio, gofalu am deulu, cymdeithasu a hyd yn oed fyw'n annibynnol.


Fodd bynnag, er gwaethaf y ffaith ei fod yn effeithio ar gynifer o fywydau, nid yw unigolion yn cael diagnosis yn ddigon buan, ac nid yw pawb yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt ar frys i reoli eu cyflwr yn effeithiol.

Gan dynnu ar dros 90 mlynedd o brofiad, mae Arthritis UK yma i newid hyn. Rydym yn benderfynol o sicrhau newid cadarnhaol a pharhaol i bawb sy'n byw gyda heriau arthritis yn y DU. Ac er bod ein ffocws ar arthritis, mae gan lawer o'n gwaith y potensial i helpu unigolion sydd â chyflyrau cyhyrysgerbydol (MSK) eraill, fel poen cefn isaf ac osteoporosis. Er y gall y cyflyrau hirdymor hyn fod yn wahanol o ran patholeg, mae'r effaith y gallant ei chael ar fywydau yn debyg. Er enghraifft, nododd 74% a 68% o unigolion sydd â chyflyrau cyhyrysgerbydol fod eu bywydau wedi'u heffeithio gan boen a blinder yn y drefn honno.

Mae cyflyrau cyhyrysgerbydol yn broblem gostus a chynyddol. Disgwylir i'w niferoedd barhau i gynyddu oherwydd ein poblogaeth sy'n heneiddio, lefelau cynyddol o ordewdra ac anweithgarwch corfforol. Mae rôl gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol wrth alluogi unigolion sydd ag arthritis i fyw'n dda, deall eu cyflwr, a chael mynediad at yr wybodaeth a'r gefnogaeth briodol i hunanreoli erioed wedi bod yn bwysicach.

Mae Arthritis UK yma i'ch helpu. Mae ein hadnoddau addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd rheng flaen yn hygyrch, yn berthnasol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Fe'u cynlluniwyd i'ch cefnogi i wneud diagnosis a rheoli amrywiaeth o gyflyrau cyhyrysgerbydol yn hyderus, yn ogystal â hogi eich sgiliau wrth ddarparu gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae ein canllaw Asesiad Clinigol Cyhyrysgerbydol mewn Oedolion wedi'i ddatblygu fel cymorth astudio ar gyfer gweithwyr proffesiynol meddygol, nyrsio a gweithwyr iechyd cysylltiedig. Mae'n cymryd dull cam wrth gam o asesu unigolion sydd â chyflyrau cyhyrysgerbydol i'ch helpu i ddod yn gymwys ac yn hyderus yn eu gofal.



Cynnwys

1 Ynglŷn â'r canllaw hwn 6

Bywgraffiadau 7

Rhagair 8

Talfyriadau 9

Terminoleg 9

Cydnabyddiaethau 9

2 Cyflwyniad 11

Cyflwyniad i asesiad cyhyrsgerbydol 12

Y dull cychwynnol 12

3 Yr hanes cyhyrsgerbydol 15

A yw'r symptomau o'r cymal ei hun neu'r meinweoedd meddal? 16

A yw'r cyflwr yn aciwt neu'n gronig? 16

A yw'r cyflwr yn llidiol neu'n ddi-llidiol? 18

Beth yw patrwm y rhannau/cymalau yr effeithir arnynt? 20

Beth yw effaith y cyflwr ar fywyd y claf? 22

A oes systemau eraill yn gysylltiedig? 23

4 Yr archwiliad cyhyrsgerberbydol **25**

Y sgrinio cyhyrsgerberbydol: cwestiynau ac archwiliad GALS 26

Perfformio archwiliad rhanbarthol o'r system
gyhyrsgerberbydol (REMS) 34

5 Ymchwiliadau **51**

Delweddu esgyrn a chymalau 52

Profion gwaed 53

Dadansoddi hylif synofaidd 53

6 Casgliad **54**

Atodiad 1: Rhestrau gwirio adolygu 56

Atodiad 2: Y set graidd o sgiliau ar gyfer archwiliad cyhyrsgerberbydol
yn ôl rhan sy'n briodol ar gyfer myfyriwr meddygol ar
adeg cymhwyso 61

Atodiad 3: pGALS a pREMS 63

Llyfryddiaeth 64

Cymeradwyaethau 64

1

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Bywgraffiadau	7
Rhagair	8
Talfyriadau	9
Terminoleg	9
Cydnabyddiaethau	9

Bywgraffiadau



Dr David Coady

Awdur

Mae David Coady yn rheumatolegydd ymgynghorol yn Ysbyty Brenhinol Sunderland. Yn flaenorol, bu'n dal Cymrodoriaeth Ymchwil Addysgol a ariannwyd gan Arthritis Research UK [Arthritis UK bellach]. Canolbwyntiodd hyn ar nodi'r sgiliau clinigol craidd ar gyfer archwiliadau cyhyrsgerbydol ar gyfer israddedigion. Cynhyrchodd y fideos Archwiliadau Rhanbarthol o'r System Gyhyrsgerbydol (Regional Examinations of the Musculoskeletal System, REMS) sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer addysgu ers 2001. Mae'n cynnal diddordeb brwd mewn addysg, ymchwil addysgol a hwyllo.



Yr Athro Mark Lillicrap

Golygydd meddygol

Mae Mark Lillicrap yn Athro Ymarfer Addysg Feddygol ym Mhrifysgol Caergaint ac yn rheumatolegydd ymgynghorol anrhydeddus yn Ysbyty Addenbrooke yng Nghaergrawnt. Prif ddiddordebau Mark yw addysg a dysgu meddygol israddedig. Ef yw is-ddeon y cwricwlwm a chyfarwyddwr y rhaglen goruchwylwyr clinigol israddedig yng Nghaergrawnt. Mae hefyd wedi gweithio yn flaenorol fel Cyfarwyddwr Addysg Feddygol yn Ysbyty Hinchingsbrooke yn Huntingdon ac fel goruchwylwr addysgol ôl-raddedig ar gyfer hyfforddeion arbenigol mewn rheumatoleg.

Rhagair

Rwy'n falch iawn o gyflwyno canllaw Asesiad Clinigol Cyhyrysgerbydol mewn Oedolion Arthritis UK. Rwy'n cofio defnyddio'r adnodd hwn a'r fideos cysylltiedig yn ystod fy hyfforddiant a'i chael yn hynod ddefnyddiol. Nawr rwy'n defnyddio'r ddau eto wrth addysgu myfyrwyr meddygol.

Mae'r fideos sy'n ategu'r canllaw hwn ar gael ar wefan a sianel YouTube Arthritis UK. Rydym yn argymhell eu defnyddio gyda'i gilydd i ymgyswrttu â threfniadau archwilio a'u deall. Wrth gwrs, nid oes dim byd gwell nag ymarfer, manteisiwch ar bob cyfle i roi cynnig ar eich sgiliau, cael adborth pryd bynnag y gallwch, a byddant yn gwella'n gyflym.

Mae'r canllaw hwn, sydd wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar, yn cyflawni ei nod yn wych o ddad-ddirgelu archwiliad o'r system gyhyrysgerbydol (musculoskeletal, MSK), maes y mae dysgwyr wedi nodi ei fod yn anodd iddynt o'r blaen. Mae'r adnodd yn cynnwys yr archwiliad sgrinio 'GALS' (Gait, Arms, Legs, Spine yn Saesneg) a ddatblygwyd gan yr Athrawon Paul Dieppe a Mike Doherty. I gleifion sy'n nodi symptomau neu sydd â chanfyddiadau cadarnhaol ar y sgrin GALS, mae'n cynnig REMS. Mae'r sgiliau craidd sydd wedi'u cynnwys yn Archwiliadau Rhanbarthol o'r System Gyhyrysgerbydol (Regional Examination of the Musculoskeletal System, REMS) yn seiliedig ar gonsensws a gyrhaeddwyd ar draws sbectwm eang o glinigwyr yn y DU mewn astudiaeth dan



arweiniad Dr David Coady. Mae archwiliadau rhanbarthol i gyd wedi'u strwythuro gan ddefnyddio'r un dull golwg, teimlad, symudiad, gweithrediad, gan eu gwneud yn hawdd eu cofio a'u perfformio.

Mae'r rhifyn hwn yn canolbwyntio ar archwiliadau ond mae hefyd yn cynnwys awgrymiadau ar gymryd hanes a gofyn am ymchwiliadau. Mae'n cynnwys y fersiynau pediatrig pGALS a pREMS, gan ymgorffori gwaith dan arweiniad yr Athro Helen Foster. Yn seiliedig ar yr archwiliadau i oedolion, mae gan y rhain ychwanegiadau i wella'r broses hanfodol o ganfod ac adnabod problemau cyhyrysgerbydol mewn plant oedran ysgol.

Gobeithio y byddwch chi'n ei fwynhau ac yn ei chael hi'n ddefnyddiol hefyd. Drosodd i chi - amser i ddarllen, gwylio ac ymarfer!

Dr Pippa Watson

Rheumatolegydd Ymgynghorol ac Uwch Ddarlithydd Anrhydeddus University Hospital of South Manchester



Mae'r canllaw hwn, sydd wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar, yn cyflawni ei nod yn wych o ddad-ddirgelu archwilio'r system gyhyrysgerbydol, maes y mae dysgwyr wedi nodi o'r blaen fel un anodd.

Talfyriadau

CMC(J)	Carpometacarpal (cymal)
CT	Tomograffeg gyfrifiadurol/Computerised tomography
DEXA	Amsugniametreg pelydrau X egni-deuol/Dual-energy x-ray absorptiometry
DIP(J)	Distal interphalangeal (cymal)
ESR	Cyfradd gwaddodi erythrocytau/Erythrocyte sedimentation rate
GALS	Cerddediad, breichiau, coesau ac asgwrn cefn
MCP(J)	Metacarpophalangeal (cymal)
MRI	Delweddu cyseiniant magnetig/Magnetic resonance imaging
MSK	Cyhyrsgerberbydol/Musculoskeletal
MTP(J)	Metatarsophalangeal (cymal)
NSAIDs	Cyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd/Non-steroidal anti-inflammatory drugs
OA	Osteoarthritis
PIP(J)	Proximal interphalangeal (cymal)
RA	Arthritis gwynegol/Rheumatoid arthritis
REMS	Archwiliad rhanbarthol o'r system gyhyrsgerberbydol

Terminoleg

It could be argued that the term 'arthritis' should only be used to Gellid dadlau y dylid dim ond defnyddio'r term 'arthritis' i ddisgrifio anhwylderau llidiol y cymal, tra dylid defnyddio 'arthropathi' i ddisgrifio anhwylderau nad ydynt yn llidiol y cymal. Fodd bynnag, mae'r term 'arthritis' mor gyffredin i ddisgrifio unrhyw anhwylder yn y cymal fel, at ddiben y canllaw hwn, y bydd yn cael ei ddefnyddio yn yr ystyr hwnnw.

Cydnabyddiaethau

Rydym yn parhau i fod yn ddyledus i'r Athro Paul Dieppe, y mae myfyrwyr meddygol yn y DU wedi cyfeirio'n helaeth at ei fersiwn gynharach o'r canllaw hwn ers 1991. Mae ei destun yn parhau i fod yn ddylanwadol yn yr argraffiad newydd hwn.

Hoffem ddiolch i Dr David Coady a'r Athro Mark Lillicrap am eu hamser a'u hymrwymiad sylweddol wrth ddiweddarau'r cynnwys, Dr Pippa Watson am ei hadborth a'i chefnogaeth ychwanegol yn ystod ffilmio'r deunydd ar gyfer y fideos, a phawb a dreuliodd amser yn rhoi sylwadau ar y rhifyn blaenorol a drafftiau cynnar y canllaw newydd hwn – Onebieni Ana, Ivan Cheuk Li, Nathan Ng, Jamie Nicholson, SarahJane Ryan, Sophia Wakefield, Louise Warburton ac Anita Williams.



2

Cyflwyniad

Cyflwyniad i asesiad cyhyrysgerbydol

12

Dull cychwynnol

12

Cyflwyniad i asesiad cyhyrsgerberbydol

Mae cael arthritis neu gyflwr cyhyrsgerberbydol (MSK) arall yn un o'r cyfranwyr mwyaf at flynyddoedd o fyw gydag anabledd (years lived with disability, YLDs). Mae 21% o flynyddoedd byw gydag anabledd yn y DU yn cael eu cyfrif gan gyflyrau cyhyrsgerberbydol (Global Burden of Disease Collaborative Network, 2024).

Amcangyfrifir bod anhwylderau cyhyrsgerberbydol yn cyfrif am oddeutu 1 o bob 7 ymgynghoriad meddyg teulu (Jordan et al. 2010) a phob blwyddyn bydd 1 o bob 5 oedolyn yn ymgynghori â'u meddyg teulu am gyflwr cyhyrsgerberbydol. Roedd cyflyrau cyhyrsgerberbydol yn cyfrif am 1.2 miliwn o dderbyniadau i'r ysbyty yn Lloegr yn 2023-24, 7% o'r cyfanswm (GIG Lloegr, 2024).

Sgiliau asesu clinigol – cymryd hanes ac archwilio – yw'r allwedd i wneud diagnosis cywir a rheoli unrhyw glaf sy'n cyflwyno â phroblem cyhyrsgerberbydol yn briodol. Nod y canllaw hwn yw eich cyflwyno i'r dulliau y gallech eu defnyddio yn ystod yr asesiad clinigol cychwynnol. Nid yw'n gynhwysfawr nac wedi'i fwriadu i ddisodli addysgu a phrofiad clinigol uniongyrchol, ond i'w ddefnyddio fel cymorth i ddysgu.

Dull cychwynnol

Cyn ystyried diagnosis, mae'n ddefnyddiol ceisio categorieiddio'r symptomau a'r arwyddion yn fras (o hanes ac archwiliad y claf) trwy ateb y cwestiynau allweddol canlynol:

- A yw'r symptomau o'r cymal ei hun neu'r meinweoedd meddal (er enghraifft, tendonau a chyhyrau)?
- A yw'r cyflwr yn aciwt neu'n gronig?
- A yw'r cyflwr yn llidiol neu'n ddi-llidiol?
- Beth yw patrwm y rhannau/cymalau yr effeithir arnynt?
- Beth yw effaith y cyflwr ar fywyd y claf?
- A yw systemau eraill yn gysylltiedig (er enghraifft, cardiofasgwlaidd, gastroberfeddol, croen, llygaid)?

Dylai'r atebion i'r cwestiynau hyn eich galluogi i gynhyrchu crynodeb byr o gyflwr y claf a byddent yn eich arwain at ddiagnosis gwahaniaethol mwy cul. Gallai enghraifft o grynodedb claf a gynhyrchwyd gan ddefnyddio'r dull hwn fod fel a ganlyn:

'Mae gan y claf hwn bolyarthritis llidiol cymesur cronig, sy'n effeithio'n bennaf ar gymalau bach y dwylo a'r traed, sy'n achosi poen, anhawster wrth wisgo a sicrhau hylendid, ac yn cyfyngu ar ei symudedd.'





Ffigur 1

Dosbarthiad yr arthritisau:

Mono = mono-cymalol/monoarticular (un cymal)

Poly = aml-cymalol/polyarticular (sawl cymal)





3

Yr hanes cyhyrysgerbydol

A yw'r symptomau o'r cymal ei hun neu'r meinweoedd meddal?	16
A yw'r cyflwr yn aciwt neu'n gronig?	16
A yw'r cyflwr yn llidiol neu'n ddi-llidol?	18
Beth yw patrwm y rhannau/cymalau yr effeithir arnynt?	20
Beth yw effaith y cyflwr ar fywyd y claf?	22
A oes systemau eraill yn gysylltiedig?	23

Yr hanes cyhyrysgerbydol

Mae sgiliau cyfathrebu clinigol (y mae cymryd hanes yn un rhan ohonynt) ymhlith y sgiliau pwysicaf i unrhyw ymarferydd gofal iechyd – dim ond trwy ymarfer rheolaidd y gellir cyflawni hyn. Bydd hanes da wedi'i ategu gan ganfyddiadau archwiliad clinigol yn eich arwain at ddiagnosis. Yn yr adran hon, rydym yn edrych yn fanylach ar y cwestiynau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.


A yw'r symptomau o'r cymal ei hun neu'r meinweoedd meddal?

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn bennaf â phroblemau sy'n deillio o'r cymalau – hynny yw, o'r strwythurau articular a periarticular. Dangosir y strwythurau hyn yn **Ffigur 2**, tra bod **Ffigyrau 3a** a **3b** yn cynrychioli'n ddiagramatig y newidiadau sy'n digwydd yn y ddau brif fath o arthrits. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi'r achosion hynny lle gall poen ymddangos fel pe bai'n deillio o'r cymal ond mewn gwirionedd mae'n boen atgyfeiriol – er enghraifft, lle mae'r claf yn disgrifio poen yn yr ysgwydd chwith, a allai mewn gwirionedd fod yn boen atgyfeiriol o'r diaffram, y gwddf, neu efallai poen isgemia cardiaidd.

Mewn achosion lle nad yw archwiliad yn datgelu unrhyw annormaleddau yn y cymal, ceir cliwiau eraill trwy gymryd hanes trylwyr. Er enghraifft, achos cyffredin o boen eang wrth archwilio cymal arferol yw ffibromyalgia.


Ffigur 2

Diagram trawsdoriadol o gymal synfaidd a'i strwythurau periarticular



Ffigur 3a

Pelydr-X a chynrychiolaeth ddiagramatig o gymal yr effeithir arno gan arthrits gwynegol (RA)



Ffigur 3b

Pelydr-X a chynrychiolaeth ddiagramatig o gymal yr effeithir arno gan osteoarthritis (OA)



A yw'r cyflwr yn aciwt neu'n gronig?

Bydd angen i chi wrando ar hanes y claf i ddarganfod y canlynol:

- Pryd ddechreuodd y symptomau a sut maen nhw wedi esblygu? Oedd y cychwyniad yn sydyn neu'n raddol?
- A oedd y dechrau'n gysylltiedig â digwyddiad penodol – er enghraifft, trawma neu haint?
- Pa driniaethau y mae'r cyflwr wedi ymateb iddynt (os o gwbl)?

Gall y ffordd y mae symptomau'n esblygu ac yn ymateb i driniaeth fod yn ganllaw pwysig wrth wneud diagnosis.

Er enghraifft, nodweddir gowt gan ymosodiadau aciwt – mae'r rhain yn aml yn dechrau yng nghanol y nos, yn dod yn boenus iawn o fewn ychydig oriau, ac yn ymateb yn dda i gyffuriau gwrthlidiol ansteroidaidd (NSAIDs).

Yn gyffredinol, disgrifir symptomau cyhyrsgerbydol sy'n para mwy na chwe wythnos fel rhai cronig. Gall clefydau cronig ddechrau'n raddol a gallant fod â chwrs amrywiol gydag adferiad dros dro a gwaethgiadau dan ddylanwad therapi a ffactorau eraill. Gall fod yn ddefnyddiol cynrychioli cronoleg cyflwr yn graffigol (gweler **Ffigur 4**).

Ffigur 4

Graffiau sy'n cynrychioli cronoleg cyflwr:

(a) ar gyfer claf â gowt

(b) ar gyfer claf ag arthritis gwynegol.

(a) Claf A.H. – gowt aciwt



(b) Claf J.R. – polyarthrits llidiol (RA)



A yw'r cyflwr yn llidiol neu'n ddi-llidiol?

Prif symptomau cyflyrau cyhyrsgerberbydol yw **poen, anystwythder a chwydd yn y cymalau**. Gall asesu'r symptomau hyn ac asesiad clinigol ganiatáu gwahaniaethu rhwng cyflyrau llidiol a di-llidiol.

Mae cyflyrau llidiol ar y cymalau, fel Arthritis Gwynegol (RA), yn aml yn gysylltiedig ag anystwythder hirfaith yn gynnar yn y bore sy'n lleddfu gyda gweithgaredd - tra bod cyflyrau nad ydynt yn llidiol, fel Osteoarthritis (OA), yn gysylltiedig â phoen yn fwy nag anystwythder, ac mae'r symptomau fel arfer yn cael eu gwaethgu gan weithgaredd

Poen

Fel gyda phob poen, mae'n bwysig cofnodi'r safle, y cymeriad, y lledaeniad, a'r ffactorau gwaethgu a lleddfu.

Gall cleifion leoli eu poen yn gywir i'r cymal yr effeithir arno, neu gallant deimlo ei fod yn symud o'r cymal neu hyd yn oed i gymal cyfagos. Yn yr ysgwydd, er enghraifft, fel arfer teimlir poen o'r cymal acromioclavicwlaidd yn y cymal hwnnw, tra bod poen o'r cymal glenohumeral neu'r cyffen gylchdroi (rotator cuff) fel arfer yn cael ei deimlo yn y fraich uchaf. Gellir teimlo poen o'r pen-glin yn y pen-glin ond weithiau gellir ei

deimlo yn y glun neu'r ffêr. Bydd poen oherwydd llid nerf yn cael ei deimlo yn nosbarthiad y nerf - fel mewn sciatica, er enghraifft. Gall y poen leoli i strwythur gerllaw yn hytrach nag yn y cymal - er enghraifft, fel arfer bydd y poen o benelin tenis yn cael ei deimlo ar y tu allan i gymal y penelin.

Mae natur y poen weithiau'n ddefnyddiol. A yw'n finiog, yn ddwfn, yn boenus, yn llosgi neu'n trywanu? Yn aml mae poen oherwydd pwysau ar nerfau yn cynnwys cyfuniad o ddideimladrwydd a theimlad o fod â phinnau bach.

Mae poen nad yw'n llidiol yn gysylltiedig yn fwy uniongyrchol â defnydd: po fwyaf y byddwch chi'n ei wneud, y gwaethaf y bydd yn mynd. Gall fod yn finiog ac yn pigo ond gall deimlo'n ddolurus ar adegau.

Mae poen a achosir gan lid yn aml yn bresennol wrth orffwys yn ogystal ag wrth ei ddefnyddio ac mae'n tueddu i amrywio o ddydd i ddydd ac o wythnos i wythnos mewn modd anrhagweladwy. Mae'n gwaethgu ac yna'n tawelu a gall fod yn gysylltiedig â thynerwch i'r cyffyrddiad. Mae poen esgyrn difrifol (sy'n awgrymu malaenedd sylfaenol) yn aml yn ddi-baid ac yn parhau drwy gydol y nos, gan amharu ar gwsg y claf.



Anystwythder

Yn gyffredinol, mae arthritis llidiol yn gysylltiedig ag anystwythder hirfaith yn y bore sy'n gyffredinol ac a all bara am sawl awr. Mae hyd yr anystwythder boreol yn ganllaw bras i weithgaredd y llid.

Mae arthritis nad yw'n llidiol, fel OA y pen-glin, yn tueddu i achosi anystwythder lleol a all bara am gyfnod byr (llai na 30 munud) ond gall ddychwelyd ar ôl eistedd am gyfnodau byr.

Gyda chlefydau llidiol fel Arthritis Gwynegol, lle mae dinistrio cymalau yn digwydd dros gyfnod hir, gall y gydran lidiol ddod yn llai gweithredol yn y pen draw a rhoi lle i boen mecanyddol eilaidd o ganlyniad i'r difrod. Felly mae'n anodd weithiau i gleifion wahaniaethu rhwng poen ac anystwythder, felly bydd angen i'ch cwestiynau fod yn benodol.

Chwydd yn y cymalau

Mae hanes o chwyddo cymalau, yn enwedig os yw'n ysbeidiol, fel arfer yn arwydd da o broses clefyd llidiol. Yn aml, mae cleifion yn disgrifio cylchoedd yn mynd yn dynn neu deimlad o gerdded ar gerrig mân.

Mae yna eithriadau fodd bynnag. Mae OA nodal, er enghraifft, yn achosi chwydd esgymnog, caled ac an-dendr yng nghymalau proximal interphalangeal (PIP) a distal interphalangeal (DIP) y bysedd. Mae chwydd y pen-glin hefyd yn llai awgrymog o glefyd llidiol gan y gall hefyd ddigwydd gyda thrawma ac mewn OA. Mae chwydd y ffêr yn gŵyn gyffredin, ond mae hyn yn fwy cyffredin oherwydd edema nag oherwydd chwydd y cymal.

Blwch 1

Nodweddion symptomau llidiol o'u cymharu â symptomau dirywiol

Mae clefyd llidiol yn



Beth yw patrwm y rhannau/cymalau yr effeithir arnynt?

Mae patrwm ymwneud y cymalau yn ddefnyddiol iawn wrth ddiffinio'r math o arthrits, gan fod gwahanol batrymau'n gysylltiedig â gwahanol afiechydon.

Mae patrymau cyffredin ymwneud y cymalau'n cynnwys y canlynol:

Mono-cymalol (Monoarticular) – dim ond un cymal sydd wedi'i effeithio (er enghraifft, arthrits septig).

Pauci-cymalol (Pauciarticular neu oligoarticular) – dim ond ychydig o gymalau sydd wedi'u heffeithio (er enghraifft, arthrits soriatic).

Aml-cymalol (Poliarticular) – llawer o gymalau wedi'u heffeithio (er enghraifft, Arthrits Gwynegol).

Echelinol (Axial) – yr asgwrn cefn sy'n cael ei effeithio'n bennaf (er enghraifft, axial spondyloarthrits).

Yn ogystal â **nifer y cymalau yr effeithir arnynt**, mae'n ddefnyddiol ystyried a yw'r **cymalau mawr neu fach** yn gysylltiedig, ac a yw'r patrwm yn **gymesur neu'n anghymesur**.

Mae arthrits gwynegol, er enghraifft, yn bolyarthrits (mae'n effeithio ar lawer o gymalau) sy'n tueddu i fod yn gymesur (os yw'n effeithio ar un cymal, bydd yn effeithio ar yr un cymal ar yr ochr arall), ac os yw'n effeithio ar un o grŵp o gymalau bydd yn aml yn effeithio ar bob un ohonynt, er enghraifft, y cymalau metacarpophalangeal (MCP).

Noder, fodd bynnag, fod hyn yn disgrifio clefyd sefydledig a gall arthrits gwynegol cynnar effeithio ar unrhyw batrwm o gymalau.

Mae spondyloarthrits, fel arthrits soriatic, yn fwy tebygol o fod yn anghymesur a gallant fod yn gysylltiedig â symptomau llidiol, fel anystwythder bore cynnar sy'n cynnwys yr asgwrn cefn.

Mae OA yn tueddu i effeithio ar gymalau sy'n dwyn pwysau a'r rhannau o'r asgwrn cefn sy'n symud fwyaf (meingefn a cerfigol).

Mae **Tabl 1** yn rhoi crynodeb o nodweddion nodweddiadol rhai cyflyrau cyhyrsgerberbydol cyffredin.



Tabl 1

Beth i'w chwilio amdano: awgrymiadau diagnostig

	Cyflyrau llidiol cyffredin				Cyflyrau di-llidiol cyffredin	
	Arthritis gwynegol (RA)	Arthritisau seronegatif (e.e. arthritis adweithiol a soriatic)	Gowt	Polymyalgia rheumatica (PMR)	Osteoarthritis (OA)	Fibromyalgia
Cychwyniad	Fel arfer aciwt neu is-aciwt	Aciwt/is-aciwt neu gronig	Fel arfer aciwt	Fel arfer aciwt neu is-aciwt	Cronig	Cronig
Oedran a rhywedd nodweddiadol	Benyw: gwryw 3:1 Unrhyw oedran	Unrhyw oedran	Benyw: gwryw 1:3 Anaml iawn mewn menywod cyn y menopos	Benyw: gwryw 2:1	OA y llaw yn fwy cyffredin mewn menywod Fel arfer dros 45 oed	Benyw: gwryw 7:1 Oedran 30–50
Patrwm ymwneud y cymal	Dwylo a thraed yn gymesur fel arfer	Gall fod yn monoarthritis neu'n polyarthritis anghymesur neu'r asgwrn cefn	Monoarthritis yn fwyaf cyffredin – MTP, ffêr, pen-glin	Fel arfer gwregys y pelfis a'r ysgwydd	Fel arfer yn aml-gymalol Dwylo, pengliniau, clun a thraed mwyaf cyffredin	Poen eang
Cliwiau eraill	Syndrom Raynaud Llygaid a cheg sych Cynhyrfu systemig	Poen mewnosod tendon (enthesitis) Psoriasis Clefyd llidiol y coluddyn Wfeitis	Ffactorau risg: gordewdra, alcohol, triniaeth diwretig	Anystwythder difrifol Gall fod gorgyffwrdd â llid y rhedwelïau arleisiol (temporal arteritis)	Nodau Heberden neu Bouchard Crepitws	Ansawdd cwsg gwael 'Pwyntiau sbarduno' meinwe meddal dolurus wrth archwilio Symptomau lluosog

Beth yw effaith y cyflwr ar fywyd y claf?

Mae deall effaith unrhyw gyflwr ar y claf yn hanfodol i drafod cynllun rheoli addas.

Gofynnwch gwestiynau agored am broblemau gweithredu ac anhawster gyda gweithgareddau bob dydd. Efallai mai'r ffordd hawsaf yw gofyn i'r claf ddisgrifio diwrnod nodweddiadol, o godi o'r gwely i olchi, gwisgo, mynd i'r toiled ac yn y blaen. Dylid mynd at feysydd sensitif o bosibl – fel hylendid neu weithgarwch rhywiol, hwyliau, iselder a gorbryder – gyda chwestiynau agored syml, uniongyrchol. Bydd effaith y cyflwr ar gyflogaeth y claf yn hanfodol.

Mae anghenion a dyheadau claf yr un mor bwysig o'r hafaliad a byddant yn dylanwadu ar eu gallu i addasu i'r cyflwr. Gall holi ynghylch y pethau y byddai person yn hoffi eu gwneud, ond nad yw'n gallu eu gwneud ar hyn o bryd, nodi materion allweddol. Beth yw eu syniadau, eu pryderon a'u disgwyliadau? Bydd trafodaethau

diweddarach gyda'r claf ar gydbwysu risgiau a manteision ymyrraeth yn cael eu heffeithio'n fawr gan flaenoriaethau'r claf.


Dylai pob ymarferydd gofal iechyd fod yn ymwybodol o'r berthynas rhwng colli gweithrediad, cyfyngu ar weithgaredd, a chyfyngu ar gyfranogiad fel y nodir yn Dosbarthiad Rhyngwladol o Weithredu, Anabledd ac Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd (gweler **Ffigur 5**). Gallai methu â phlygu bys yn llawn (colli gweithrediad) arwain at anhawster, er enghraifft, gyda chau botymau (gweithgaredd) a allai gael effaith fach ar fywyd cyffredinol (cyfranogiad). Fodd bynnag, gallai'r un golled gweithrediad atal panydd rhag chwarae (gweithgaredd) a allai, i gerddor proffesiynol, gael effaith sylweddol ar eu ffordd o fyw (cyfranogiad). (Gweler **Ffigur 5**.)

Ffigur 5

the Model o anabledd – y berthynas rhwng colli gweithrediad, cyfyngu ar weithgaredd a chyfyngu ar gyfranogiad.

Yn seiliedig ar Dosbarthiad Rhyngwladol o Gweithrediad, Anabledd ac Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae anabledd a gweithrediad yn ganlyniad i'r rhyngweithiadau rhwng cyflwr iechyd a ffactorau cyd-destunol (ffactorau amgylcheddol a phersonol).



A oes systemau eraill yn gysylltiedig?

Mae arthritis llidiol yn aml yn effeithio ar systemau eraill gan gynnwys y croen, y llygaid, yr ysgyfaint a'r arennau. Yn ogystal, mae cleifion â chlefyd llidiol yn aml yn dioddef o symptomau cyffredinol fel anhwylder, colli pwysau, twymyn ysgafn a chwysu nos. Mae OA, i'r gwrthwyneb, yn gyfyngedig i'r system gyhyrsgerbydol ac nid yw'n gysylltiedig ag actifadu imiwnedd. Felly, ni ddisgwylir symptomau systemig.

Gall blinder ac iselder fod yn gyffredin mewn unrhyw arthritis lle mae colli gweithrediad neu boen cronig. Rhaid i hanes cynhwysfawr gynnwys y cwestiynau sgrinio arferol ar gyfer pob system yn ogystal ag ymholiadau penodol sy'n ymwneud â chymhlethdodau hysbys anhwylderau cyhyrsgerbydol penodol.

Gall arthritis ddigwydd ar gefndir o afiechydon eraill ac mae'n bwysig ystyried problemau iechyd parhaus eraill, yn enwedig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy. Bydd cyfuniad o ddwy broblem yn waeth na'r naill broblem ar ei phen ei hun, ac felly bydd yr effaith ar y claf yn fwy. Yn ogystal, gall y triniaethau a ragnodir ar gyfer yr arthritis effeithio ar gyflyrau eraill. Er enghraifft, gall presenoldeb clefyd yr afu gyfyngu ar ddefnyddio cyffuriau sy'n addasu clefydau ar gyfer arthritis llidiol, oherwydd gall y rhan fwyaf o'r cyffuriau hyn gynhyrfu'r afu.





4

Yr archwiliad cyhyrysgerbydol

Y sgrinio cyhyrysgerbydol: cwestiynau ac archwiliad GALS	26
Perfformio archwiliad rhanbarthol o'r system gyhyrysgerbydol (REMS)	34

Y sgrinio cyhyrsgerberbydol: cwestiynau ac archwiliad GALS

Hyd yn hyn, mae'r trafodaethau uchod am gymryd hanes wedi tybio bod y claf wedi dod i'ch gweld chi gyda phoen sy'n gysylltiedig â'r cymalau. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig gwneud asesiad rheolaidd o unrhyw broblemau cyhyrsgerberbydol waeth beth fo'u symptomau.



www.arthritis-uk.org/the-MSK-examination-GALS/

Mae sgrinio **GALS** – **G**ait, **A**rms, **L**egs and **S**pine – yn cynnwys tri chwestiwn syml ac archwiliad byr a ddatblygwyd i ganfod annormaleddau cyhyrsgerberbydol sylweddol (Doherty et al. 1992). Gellir ei ddefnyddio hefyd fel offeryn sgrinio cyn archwiliad gyda mwy o ffocws.



Gwylwch y fideos archwiliad GALS cam wrth gam mewn amser go iawn.

www.arthritis-uk.org/the-MSK-examination-GALS/

Cwestiynau sgrinio arferol

Dylid ymgorffori cwestiynau sgrinio sy'n asesu'r system gyhyrsgerberbydol yn ymholiad systemig arferol pob claf. Fel y trafodwyd, y prif symptomau sy'n deillio o anhwylderau'r system gyhyrsgerberbydol yw **poen**, **anystwythder**, **chwyddo** a **phroblemau gweithrediad** cysylltiedig. Y cwestiynau sgrinio a ddefnyddiwn i fynd i'r afael â'r meysydd hyn yn uniongyrchol yw'r canlynol:

Cwestiwn	Rhesymeg
Oes gennych chi unrhyw boen, chwydd neu stifferwydd yn eich cyhyrau, eich cymalau neu'ch cefn?	Mae'n canolbwyntio ar symptomau cyffredin problem cyhyrsgerberbydol.
Allwch chi wisgo eich hun yn llwyr heb unrhyw anhawster?	Mae'n canolbwyntio ar weithrediad yr aelodau uchaf.
Allwch chi gerdded i fyny ac i lawr grisiau heb unrhyw anhawster?	Mae'n canolbwyntio ar weithrediad yr aelodau isaf.

Mae'n annhebygol y bydd gan glaf nad oes ganddo boen na stifferwydd, a dim anhawster wrth wisgo na ddringo grisiau, unrhyw anhwylder cyhyrsgerberbydol sylweddol. Os oes gan y claf boen neu stifferwydd, neu anhawster gyda'r naill neu'r llall o'r gweithgareddau hyn, yna dylid cymryd hanes mwy manwl.

Yr archwiliad sgrinio (GALS)

Dyfeisiwyd yr archwiliad hwn i'w ddefnyddio mewn asesiad clinigol arferol ac mae'n cymryd 1 i 2 funud i'w berfformio. Mae'n cynnwys archwilio'n ofalus am chwydd yn y cymalau ac ystum annormal, yn ogystal ag asesu'r cymalau am symudiad arferol.

Os nodir annormaledd mewn ardal unigol yn sgrin GALS, dylid archwilio'r ardal honno'n fanylach gan ddefnyddio'r REMS. Nid yw sgrinio GALS wedi'i gynllunio i ddweud wrthyfych beth yw'r broblem, dim ond bod problem sydd angen asesiad pellach.

Gellir amrywio'r dilyniant y mae'r pedair elfen hon (Cerddediad, Breichiau, Coesau ac Asgwrn Cefn neu '**Gait, Arms, Legs and Spine**' yn Saesneg) yn cael eu hasesu ynddo – yn ymarferol, fel arfer mae'n fwy cyfleus cwblhau'r elfennau y mae'r claf yn sefyll ar eu cyfer cyn gofyn i'r claf orwedd ar y sofffa.

Gallwch weld fideos GALS fel ymarfer amser go iawn cyflawn:



www.arthritis-uk.org/the-MSK-examination-GALS/

Neu gyda sylwebaeth gam wrth gam:



www.arthritis-uk.org/the-MSK-examination-GALS/

Cyflwyno eich hun

Mae'n bwysig cyflwyno eich hun, egluro i'r claf beth rydych chi'n mynd i'w wneud, cael caniatâd llafar i archwilio, a gofyn i'r claf roi gwybod i chi os ydych chi'n achosi unrhyw boen neu anghysur iddo ar unrhyw adeg. Ym mhob achos, mae'n bwysig gwneud i'r claf deimlo'n gyfforddus ynglŷn â chael ei archwilio ac mae hyn yn ymestyn i'r dillad mae'n eu gwisgo a faint o ddillad mae'n eu dadwisgo.


Mae archwiliad cyhyrysgerbydol da yn dibynnu ar gydweithrediad cleifion, er mwyn iddynt ymlacio eu cyhyrau, ond hefyd y gallu i weld a chymharu cymalau a grwpiau cyhyrau er mwyn peidio â cholli arwyddion clinigol pwysig.

Cerddediad

- Gofynnwch i'r claf gerdded ychydig o gamau, troi a cherdded yn ôl. Arsylwch gerddediad y claf am gymesuredd, llyfnder a'r gallu i droi'n gyflym.
- Gyda'r claf yn sefyll yn y safle anatomegol, arsylwch o'r tu ôl, o'r ochr, ac o'r blaen am:
 - faint a chymesuredd yr ysgwydd, y glwteal, y cyhyrau pedwarpen a chyhyrau croth y goes
 - aliniad yr aelodau
 - aliniad yr asgwrn cefn
 - lefel gyfartal gwrymiau'r iliag
 - gallu ymestyn y penelinoedd a'r pengliniau'n llawn
 - chwydd y popliteal
 - annormaleddau yn y traed fel proffil bwa rhy uchel neu isel, crafannu/tynnu'n ôl y bysedd traed a/neu bresenoldeb hallux valgus (gweler **Ffigur 6**).

Ffigur 6

Gyda'r claf yn y safle anatomegol, arsylwch o'r tu ôl, o'r ochr ac o'r blaen, gan wirio am y canlynol:



Yr archwiliad sgrinio (GALS) (parhad)

Breichiau

- Gofynnwch i'r claf roi ei ddwylo y tu ôl i'w ben. Mae hyn yn asesu allsymudiad yr ysgwydd (y symudiad cyntaf yr effeithir arno gan broblemau gyda'r cyffen gylchdroi) a chylchdro allanol (y symudiad cyntaf yr effeithir arno gan broblemau gyda'r glenohumeral). Mae hefyd yn asesu plygu'r penelin.
- Gofynnwch i'r claf sythu ei freichiau'n llwyr i asesu estyniad llawn y penelin (y symudiad cyntaf y mae problemau penelin yn effeithio arno).
- Gyda dwylo'r claf wedi'u hystyn, cledrau i lawr, bysedd wedi'u hystyn, arsylwch gefn y dwylo am chwydd ac anffurfiad yn y cymalau. Archwiliwch yr ewinedd a'r croen ar yr un pryd.
- Gofynnwch i'r claf droi ei ddwylo drosodd. Mae symudiad dyleddfiad (supination) yn asesu symudiad yr arddwrn a'r penelin.
- Edrychwch ar y cledrau am faint y cyhyrau ac am unrhyw arwyddion gweledol o annormaledd
- Gofynnwch i'r claf wneud dwrn. Aseswch yn weledol bŵer gafael, gweithrediadau'r llaw a'r arddwrn, ac ystod symudiad y bysedd.
- Gofynnwch i'r claf wasgu eich bysedd. Aseswch gryfder y gafael.
- Gofynnwch i'r claf ddod â phob bys yn ei dro i gwrdd â'r bawd. Aseswch binsio manwl gywirdeb (sy'n bwysig ar gyfer gweithrediad).
- Gwasgwch yn ysgafn ar draws cymalau'r MCP i wirio am dynerwch sy'n awgrymu llid yn y cymalau (gweler **Ffigur 7**). (Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwylio wyneb y claf am arwyddion aneiriol o anghysur.)

Ffigur 7

Prawf gwasgu MCP. Gwasgwch yn ysgafn ar draws y cymalau metacarpophalangeal i wirio a yw'n dyner ac yn awgrymu llid yn y cymalau.



Ffigur 8

Prawf tapio patellar. Llithrwch eich llaw i lawr clun y claf, gan gywasgu'r cwydn suprapatellar. Mae hyn yn gorfodi unrhyw arllwysiad y tu ôl i'r patellar. Gyda dau neu dri bys y llaw arall, gwithiwch y patella i lawr yn ysgafn. Mewn prawf positif bydd y patella yn bownsio ac yn tapio.



Coesau

- Gyda'r claf yn gorwedd ar y sofffa, aseswch blygu ac ymestyn llawn y ddau ben-glin, gan deimlo dros linell y cymal tibioffemoraidd am grepitws yn ystod y symudiadau.
- Gyda'r glun a'r pen-glin wedi'u plygu i 90°, gan ddal y pen-glin a'r ffêr i arwain y symudiad, aseswch gylchdro mewnol pob clun wrth blygu (dyma'r symudiad cyntaf sy'n cael ei effeithio gan broblemau clun yn aml).
- Gwiriwch am arllwysiad pen-glin gan ddefnyddio naill ai tap patellar neu brawf brwsio/ymchwyddo:
 - Ar gyfer tap patellar, llithrwch eich llaw i lawr y glun, gan wthio i lawr dros y cwdyn suprapatellar fel bod unrhyw arllwysiad yn cael ei orfodi y tu ôl i'r patella. Pan gyrhaeddwch begwn uchaf y patella, cadwch eich llaw yno a chynnal pwysau. Defnyddiwch ddau neu dri bys y llaw arall i wthio'r patella i lawr yn ysgafn (gweler **Ffigur 8**). A yw'n bownsio ac yn 'tapio'? Mae hyn yn dynodi presenoldeb arllwysiad cymharol fawr.
 - Efallai na fydd arllwysiadau bach yn cael eu canfod gyda phrawf tapio'r patella a gall prawf brwsio/ymchwyddo fod yn ddefnyddiol. Ar gyfer prawf brwsio/ymchwyddo, strôciwch ochr fedial y pen-glin i fyny (tuag at y cwdyn suprapatellar) i wagio'r adran fedial o hylif, yna strôciwch yr ochr ochrol i lawr (yn y blaen) (gweler **Ffigur 9**). Gall yr ochr fedial ail-lenwi a chynhyrchu ymchwydd o hylif sy'n dynodi arllwysiad.
- O ben y sofffa, archwiliwch y traed am chwydd lleol neu gyffredinol, anffurfiad fel hallux valgus, crafannu'r bysedd traed, a chaledennau ar y gwadnau sydd fel arfer yn digwydd o dan y cymalau metatarsophalangeal (MTP).
- Gwasgwch ar draws cymalau'r MTP i wirio am dynerwch sy'n awgrymu clefyd llidiol y cymalau. (Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwylio wyneb y claf am arwyddion o anghysur.)

Ffigur 9

Prawf brwsio/ymchwyddo. Strôciwch ochr fedial y pen-glin i fyny tuag at y cwdyn suprapatellar. Mae hyn yn gwagio'r adran fediol o hylif. Yna strôciwch yr ochr ochrol i lawr (yn y blaen). Gall yr ochr fediol ail-lenwi a chynhyrchu chwydd o hylif, sy'n dynodi presenoldeb arllwysiad.



Yr archwiliad sgrinio (GALS) (parhad)

Asgwrn cefn

- Gyda'r claf yn sefyll, archwiliwch yr asgwrn cefn o'r tu ôl am dystiolaeth o sgoliosis, ac o'r ochr am lordosis annormal neu kyphosis. Nodwch unrhyw anghymesuredd amlwg trwy edrych o'r tu ôl, i ddechrau ar yr ysgwyddau, yna'r pelfis, cefnau'r pengliniau ac yna'r ffêr.
- Gofynnwch i'r claf ogwyddo ei ben i bob ochr, gan ddod â'r glust tuag at yr ysgwydd. Aseswch blygu ochrol y gwddf (mae hyn yn sensitif wrth ganfod problemau gwddf cynnar).
- Gofynnwch i'r claf blygu i gyffwrdd â'u bysedd traed. Y symudiad hwn yw'r symudiad cyntaf yr effeithir arno gan broblemau asgwrn cefn meingefnol ac mae'n bwysig ar gyfer gweithredu (ar gyfer gwisgo). Fodd bynnag, gellir ei gyflawni trwy ddibynnu ar blygu clun da, felly mae'n bwysig archwilio am symudiad arferol y fertebra. Aseswch blygu asgwrn cefn meingefnol trwy osod dau neu dri bys ar y fertebra meingefnol. Dylai eich bysedd symud ar wahân wrth blygu ac yn ôl at ei gilydd wrth ymestyn (gweler **Ffigur 10**).

Cofnodi canfyddiadau o'r archwiliad sgrinio (GALS)

Mae'n bwysig cofnodi canfyddiadau cadarnhaol a negyddol yn y nodiadau. Dylid cofnodi presenoldeb neu absenoldeb newidiadau – mewn ymddangosiad neu symudiad – yn y cerddeddiad, y breichiau, y coesau neu'r asgwrn cefn. I gael canlyniad normal, mae 'GALS: NAD' yn ddigonol. Os oes annormaleddau fel chwyddo neu gyfyngiad ar symudiad, dylid cofnodi'r rhain gyda nodyn disgrifiadol byr.

Os ydych chi wedi cael gwybod am broblem gyhyrsgerberbydol – gan y cwestiynau sgrinio, eich archwiliad neu gwynion digymell y claf – bydd angen i chi gymryd hanes manwl (fel y disgrifiwyd uchod). Dylech hefyd gynnal archwiliad rhanbarthol o gymalau perthnasol – disgrifir hyn yn yr adrannau canlynol.

Ffigur 10

Asesu plygu asgwrn cefn meingefnol. Rhowch ddau neu dri bys ar fertebra meingefnol. Dylai eich bysedd symud ar wahân wrth blygu ac yn ôl at ei gilydd wrth ymestyn.



Perfformio archwiliad rhanbarthol o'r system gyhyrsgerberbydol (REMS)

Mae REMS yn cyfeirio at yr archwiliad mwy manwl y dylid ei gynnal ar ôl i annormaledd gael ei ganfod naill ai drwy'r hanes neu drwy'r archwiliad sgrinio (GALS). Mae REMS yn cynnwys archwilio grŵp o gymalau sy'n gysylltiedig â gweithrediad, ac weithiau gall fod angen archwiliad niwrolegol a fasgwlaidd manwl.

Ganwyd REMS o awydd i safoni a symleiddio archwiliadau o'r system gyhyrsgerberbydol, gan ganiatáu addysgu a dysgu mwy systematig i fyfyrwyr meddygol. Mae bellach yn cael ei ddefnyddio'n ehangach o fewn ymarfer meddygol ac aelodau o'r tîm cyhyrsgerberbydol ehangach. Fe'i datblygwyd trwy broses gonsensws genedlaethol a oedd yn cynnwys ymgynghorwyr y DU mewn rheumatoleg, orthopedeg a gofal yr henoed, a meddygon teulu dethol (Coady et al. 2004). Arweiniodd at set gytunedig o sgiliau 'craidd' (gweler **Atodiad 2**).

Mae rhai camau allweddol y mae angen eu cwblhau yn ystod archwiliad o'r cymalau mewn unrhyw ran o'r corff:

- Cyflwyno eich hun.
- **Edrych** ar y cymal(au).
- **Teimlo**'r cymal(au).
- **Symud** y cymal(au).
- **Gweithrediad** y cymal(au).
- Profion arbennig



Cyflwyno eich hun

Fel y nodwyd yn yr asesiad sgrinio GALS, mae'n bwysig cyflwyno eich hun, egluro i'r claf beth rydych chi'n mynd i'w wneud (a pham), cael caniatâd llafar i archwilio, a gofyn i'r claf roi gwybod i chi os ydych chi'n achosi unrhyw boen neu anghysur iddo ar unrhyw adeg.



Edrych

Dylai'r archwiliad bob amser ddechrau gydag archwiliad gweledol o'r ardal agored wrth orffwys. Cymharwch un ochr â'r llall, gan wirio am gymesuredd. Dylech edrych yn benodol am newidiadau croen, maint cyhyrau, a chwydd yn y cymal ac o amgylch y cymal. Chwiliwch hefyd am anffurfiad o ran aliniad ac ystum y cymal.



Teimlo

Gan ddefnyddio cefn eich llaw, teimlwch dymheredd y croen ar draws llinell y cymal ac mewn mannau cyfagos perthnasol. Dylid asesu unrhyw chwyddiadau am amrywiad a symudedd. Dylid gwahaniaethu rhwng chwyddiadau caled, esgymnog OA a chwyddiadau meddal, rwbereg clefyd llidiol y cymalau. Mae dolur yn arwydd clinigol pwysig i'w ganfod – yn y cymal ac o'i gwmpas. Mae adnabod llid mewn cymal (synofitis) yn dibynnu ar ganfod y triawd o **gynhesrwydd, chwydd a dolur**.



Symud

Dylid asesu ystod lawn symudiad y cymal. Cymharwch un ochr â'r llall. Yn gyffredinol, dylid perfformio symudiadau gweithredol (lle mae'r claf yn symud y cymal ei hun) a symudiadau goddefol (lle mae'r archwiliwr yn symud y cymal). Os oes colli symudiad gweithredol, ond nad yw symudiad goddefol

yn cael ei effeithio, gall hyn awgrymu problem gyda'r cyhyrau, y tendonau neu'r nerfau yn hytrach na'r cymalau eu hunain, neu gall fod yn effaith poen yn y cymalau. Mewn rhai achosion, gall cymalau symud ymhellach nag y disgwylir - gelwir hyn yn hypersymudedd (hypermobility).

Mae'n bwysig canfod colli plygu llawn neu golli estyniad llawn gan y gall y naill neu'r llall effeithio ar weithrediad. Dylid cofnodi colli symudiad fel un ysgafn, cymedrol neu ddifrifol. Yn aml, gall arbenigwyr ddogfennu faint o raddau o symudiad sydd wedi'u cyfyngu gan fod hyn yn caniatáu iddynt wneud cymhariaeth yn y dyfodol. Dylid cofnodi ansawdd y symudiad hefyd, gan gyfeirio at annormaleddau fel tôn cyhyrau cynyddol neu bresenoldeb crepitws. Gyda phrofiad, mae'n bosibl asesu'r ansawdd yn enwedig yn yr eithafion neu 'ystod diwedd' symudiad. Yn aml, mae gan gymal dirywiol 'deimlad diwedd' mwy solet.



Gweithrediad

Mae'n bwysig gwneud asesiad gweithrediad o'r cymal – er enghraifft, yn achos plygu penelin cyfyngedig, a yw hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r claf ddod â'i ddwylo i'w geg? Yn achos yr aelodau isaf, mae gweithrediad yn ymwneud yn bennaf â cherdded a gallu'r claf i godi o gadair a cherdded.



Profion arbennig

Gall ymarferwyr cyhyrysgerbydol profiadol ddefnyddio nifer o brofion ychwanegol fel ychwanegiad at archwiliad REMS. Gelwir y rhain yn 'brofion arbennig', ac, yn aml, cânt eu cynnal tua diwedd yr archwiliad a byddant yn dilyn 'Symud' a 'Gweithrediad'.

Mae ymdrin â phob prawf posibl, gan gynnwys eu manylder a'u sensitifrwydd mewn gwahanol sefyllfaoedd, y tu hwnt i gwmpas y canllaw hwn. Fodd bynnag, mae nifer fach o brofion a allai fod yn briodol i israddedigion wedi'u cynnwys a'u hamlygu yn yr adrannau canlynol.



www.arthritis-uk.org/REMS-general-principles/



Yr archwiliad REMS

At ddibenion y canllaw hwn (a'r fideos cysylltiedig) mae archwiliad REMS wedi'i rannu'n saith maes, a disgrifir pob un ohonynt yn fanwl isod. Fodd bynnag, dylid cofio mai rhaniad artiffisial yw hwn ac y gallai fod angen archwilio un grŵp o gymalau ar y cyd â grŵp arall (er enghraifft, yr ysgwydd a'r asgwrn cefn cerfigol).

Archwiliad o'r llaw a'r arddwrn



www.arthritis-uk.org/examination-of-the-hand-and-wrist/

Dylai hyn ddigwydd fel arfer gyda breichiau blaen y claf yn agored uwchben y penelinoedd. Dylai dwylo'r claf orffwys ar glustog oherwydd gall fod yn boenus i gleifion â phroblemau penelin neu ysgwydd ddal eu dwylo i fyny am gyfnodau hir.



Edrych

Gyda dwylo'r claf i lawr:

- Edrychwch ar yr ystum a gwiriwch am chwydd amlwg, anffurfiad, cyhyrau'n nychu a chreithiau.
- Edrychwch ar y croen am deneuo a chleisiau (arwyddion posibl o ddefnyddio steroidau yn y tymor hir) neu frechau.
- Edrychwch ar yr ewinedd am newidiadau soriatig fel tyllau neu onycholysis (gweler Ffigur 11), a thystiolaeth o fasgwilitis plyg yr ewinedd (nailfold vasculitis).
- Penderfynwch a yw'r newidiadau'n gymesur neu'n anghymesur.
- A yw'r newidiadau'n ymwneud yn bennaf â'r cymalau bach (PIPs a DIPs, MCPs ac ati) neu'r arddyrnau?

Ffigur 11

Ewinedd bysedd yr effeithir arnynt gan psoriasis:
(a) creithio (b) onycholysis



(a)



(b)

Yn aml, mae'n ddefnyddiol strwythuro'r arolygiad o'r agosaf i'r pellaf er mwyn sicrhau bod pob rhan yn cael ei hasesu'n systematig.

Gofynnwch i'r claf droi ei ddwylo drosodd:

- A oes gan y claf broblemau gyda hyn oherwydd ymwneud y cymal radiolnar agosaf neu bellaf?

Gyda dwylo'r claf i fyny:

- Chwiliwch eto am nychu cyhyrau – os yw'n bresennol, a yw yn y cnyciau cledrol a'r hypo-cledrol (thenar and hypothenar eminences)? Os mai dim ond yn y cnwc cledrol y mae, yna efallai bod gan y claf syndrom twnnel carpal. Chwiliwch am arwyddion o palmar erythema. Edrychwch ar yr arddwrn am graith rhyddhau twnnel carpal.
- Edrychwch ar y penelin am nodau gwynegol, placiau soriatig a chreithiau llawfeddygol.



Teimlo

Gyda dwylo'r claf i fyny:

- Teimlwch am guriadau ymylol (gallai isgemia fod yn achosi poen).
- Teimlwch am drwchusrwydd y cnyciau cledrol a'r hypo-cledrol ac am dewychu tendon.
- Aseswch deimlad y nerf gwythïen ganol (median) a nerf y penelin (ulnar) trwy gyffwrdd yn ysgafn â'r cnyciau cledrol a hypo-cledrol, a'r bysedd mynegai a bach yn y drefn honno – os nad yw'n normal ac yn gyfartal, gall hyn ddangos niwropathegniropathi llithiad (entrapment neuropathy)

Gofynnwch i'r claf droi ei ddwylo yn ôl drosodd, fel bod ei gledrau'n wynebu i lawr:

- Aseswch deimlad y nerf rheiddiol (radial) trwy gyffyrddiad ysgafn dros ofod gweog y bawd a'r bys mynegai.
- Gan ddefnyddio cefn eich llaw, aseswch dymheredd y croen ym mraich, arddwrn a chymalau MCP y claf. A oes gwahaniaethau?

- Gwasgwch yn ysgafn ar draws rhes y cymalau MCP i asesu a oes dolur (gan wyllo wyneb y claf am arwyddion o anghysur).
- Archwiliwch unrhyw gymalau MCP ac unrhyw gymalau PIP neu DIP sy'n ymddangos yn chwyddedig neu'n boenus â dwy law. A oes tystiolaeth o synofitis gweithredol? (Bydd y cymalau'n gynnes, yn chwyddedig ac yn ddolurus ac efallai y bydd ganddynt deimlad 'rwberog', neu efallai y byddwch hyd yn oed yn canfod arllwysladau).
- A oes chwyddiadau caled, esgrynog? Gwiriwch am sgwario cymal carpometacarpal (CMC) y bawd ac am nodau Heberden ar y DIPs. Gall fod tystiolaeth o synofitis blaenorol (cymalau wedi'u tewhau, rwberog ond heb fod yn ddolurus).
- Cymharwch un cymal ag un arall, neu â'ch un chi, i benderfynu a yw'r cymalau bach yn normal.
- Archwiliwch arddyrnau'r claf yn ddwyllaw.
